This document is available in English.
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

[www.cdllcaerdydd.co.uk](http://www.cdllcaerdydd.co.uk)



# Cynllun Adnau

## Cynllun Datblygu Lleol Newydd Caerdydd 2021 - 2036

## Fersiwn Gryno

Mae Cyngor Caerdydd yn gweithio ar Gynllun Datblygu Lleol Newydd ar gyfer 2021 - 2036.

Rydym ni bellach wedi cyrraedd cam y 'Cynllun Adnau':

**RYDYM NI YMA.**

Cynlluniau Datblygu Lleol Camau Paratoi

**Ym mis Chwefror 2025**

| | |
|---|---|
| **1** | Cytundeb Cyflawni - 30 Mawrth 2021 |
| **2** | Gweledigaeth / Materion / Amcanion - Awst 2021 |
| **3** | Opsiynau Strategol – Tach. 2021 – Chwe. 2022 |
| **4** | Strategaeth a Ffefrir - Gorffennaf - Hydref 2023 |
| **5** | **Ymgynghoriad Cynllun Adnau - Chwefror 2025** |
| **6** | Archwiliadau – Hydref 2024 i Mawrth 2026 |
| **7** | Adroddiad yr Arolygydd a Mabwysiadu erbyn Ebrill 2026 |

Mae'r ddogfen hon yn fersiwn hawdd ei deall sy'n crynhoi'r Cynllun Adnau, y gellir dod o hyd iddo yn llawn ar [cdllcaerdydd.co.uk/ymgynghoriad](http://cdllcaerdydd.co.uk/ymgynghoriad)

# Pam mae Cynlluniau Datblygu Lleol yn bwysig?

Mae Cynlluniau Datblygu Lleol yn bwysig am eu bod nhw’n gosod fframwaith ar gyfer sut y dylai’r holl ddatblygiad ddigwydd mewn ardal dros gyfnod oes y cynllun.

Maen nhw’n ymdrin â phob agwedd ar ddefnydd a datblygiad tir ac yn gosod targedau ar gyfer twf, buddsoddiad a diogelu'r amgylchedd.

Mae’r Cynllun yn meddwl am y canlynol:

- lle mae pobl yn byw;
- lle mae pobl yn gweithio;
- sut mae pobl yn treulio eu hamser;
- sut mae pobl yn teithio; a
- sut y gellir amddiffyn ein hamgylchedd, treftadaeth a diwylliant.



Cynlluniau Datblygu Lleol yw'r ffactor pwysicaf wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio.

Unwaith mae’n cael ei fabwysiadu, bydd pob cais cynllunio yn cael ei brofi yn erbyn y polisïau yn y Cynllun.

# Beth ydy 'Cynllun Adnau'?

Mae'r Cynllun Adnau yn fersiwn ddrafft lawn o'r Cynllun Datblygu Lleol, sy'n seiliedig ar y dystiolaeth a'r wybodaeth a gasglwyd a'r ymatebion i'r ymgynghoriad Strategaeth a Ffefrir.

Mae'r Cynllun Adnau yn cynnwys:

- Crynodebau o faterion sy'n wynebu Caerdydd a sut rydym yn credu y bydd y ddinas yn tyfu dros yr 11 mlynedd nesaf.
- Gweledigaeth a set o 11 o amcanion a thargedau ar gyfer yr hyn y dylai'r cynllun ei gyflawni.
- Gwahanol opsiynau ar gyfer twf a dewis yr opsiwn a ffefrir a fydd yn caniatáu ar gyfer twf cynaliadwy.
- Strategaeth a Ffefrir a Set o 23 o Bolisïau Cynllunio Strategol a fydd yn helpu i gyflawni'r weledigaeth a'r amcanion.
- Cyfres o 79 o bolisïau cynllunio manwl a fydd yn helpu i wneud Caerdydd yn gryfach, yn decach ac yn wyrddach.
- Gwybodaeth am sut y bydd y cynllun yn cyflawni'r hyn sydd ei angen ar y ddinas a sut y byddwn yn sicrhau ei fod yn cyflawni.
- Mapiau 'Cynigion' manwl sy'n nodi safleoedd penodol ar gyfer datblygu ac amddiffyn.
- Pob dogfen gefndir ac asesiad sy'n ffurfio'r dystiolaeth a ddefnyddir i baratoi'r cynllun.

## Beth sydd wedi newid ers y Strategaeth a Ffefrir?

Gwnaed y newidiadau a'r diweddariadau canlynol i'r cynllun o ganlyniad i ymatebion i'r ymgynghoriad a thystiolaeth newydd.

Dyraniadau tir newydd sy'n cynnwys:

- Saith ardaloedd adfywio dan arweiniad tai draws y ddinas i gynorthwyo adfywio a lleihau'r pwysau ar gyfer datblygu ar safleoedd tir glas.
- safle Sipsiwn a Theithwyr newydd yn Pengam Green;

Polisïau manwl sydd:

- â rheolaethau cryfach dros Dai Amlfeddiannaeth;
- yn cefnogi Llety Myfyrwyr a Chyd-fyw'n bwrpasol;
- cyfnogaeth yn cwmpasu'r Economi Ddiwylliannol a Nos;
- cyfnogaeth yn cynnwys cymysgedd mwy o ddefnyddiau mewn Canolfannau Ardal a Lleol;
- yn hyrwyddo iechyd, lles a chynaliadwyedd bwyd;
- yn gofyn am Fanteision Net i Fioamrywiaeth ym mhob datblygiad, gan gydnabod pwysigrwydd priddoedd a seilwaith gwyrdd.
- yn sicrhau seilwaith newydd ar gyfer cerbydau trydan;
- yn annog Datblygu Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel; ac
- cefnogaeth yn ymwneud â Chwarae a hamdden anffurfiol.
- yn cefnogi paratoi "Cynlluniau Creu Lleoedd" i gydnabod gwerth cymdeithasol ac ymgysylltu â chymunedau lleol;

Mae'r Cynllun hefyd yn rhoi mwy o bwyslais ar ddylunio cynhwysol, addas i blant a sensitif i rywedd ac mae'n rhoi ystyriaeth bellach i'r Gymraeg.

# Ein Gweledigaeth a'n Hamcanion

Ein gweledigaeth yw creu dinas deg, iach, mwy hyfyw, cynaliadwy, carbon isel a dwyieithog drwy:

- Creu dinas wyrddach, tecach a chryfach sy'n gwella iechyd poblogaeth a lles presennol cenedlaethau'r dyfodol.
- Diwallu anghenion y dyfodol ar gyfer cartrefi, swyddi a seilwaith carbon isel newydd.
- Datblygu dinas hygyrch iawn sy'n ail-lunio symudiad o amgylch craidd o deithio llesol a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.
- Defnyddio creu lleoedd, dylunio o ansawdd uchel, rheoli cynaliadwyedd a gweithio gyda chymunedau lleol i greu canol dinas ffyniannus a chymdogaethau lleol.
- Diogelu a gwella ein hasedau naturiol, hanesyddol a diwylliannol.
- Rhoi Caerdydd ar flaen y gad o ran dinasoedd sy'n dangos arweinyddiaeth a gweithredu beiddgar i fynd i'r afael â newid hinsawdd.
- Adeiladu dinas wirioneddol ddwyieithog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

Er mwyn gwneud hyn, rydym wedi gosod cyfres o 11 o amcanion sydd:

- Yn ymateb i'n hanghenion yn y dyfodol.
- Yn creu dinas gynaliadwy ac iach sy'n ymateb i heriau newid hinsawdd ac yn gwella lles cenedlaethau'r dyfodol.
- Yn gofalu am ein hasedau naturiol, hanesyddol a diwylliannol.


Gweler pennod 4 o'r Cynllun Adnau am fwy o wybodaeth.

# Sut bydd Caerdydd yn Tyfu?

Mae gan Gaerdydd angen sylweddol am gartrefi newydd gan gynnwys cartrefi teulu a chartrefi fforddiadwy. Mae Caerdydd hefyd yn chwarae rhan allweddol fel sbardun economaidd i'r ddinas-ranbarth ehangach, gan ddarparu swyddi y mae mawr eu hangen.

Nod y Cynllun yw ymateb i'r anghenion cymdeithasol ac economaidd hyn a ganfyddir mewn ffordd gytbwys, rheoli effeithiau, parchu'r amgylchedd a darparu seilwaith newydd ar yr adeg gywir.

Mae'r Cynllun yn nodi Strategaeth i ddarparu **26,400 o dai newydd** gan gynnwys 5,000 i 6,000 o dai fforddiadwy a **32,300 o swyddi newydd** dros gyfnod y Cynllun.



# Sut bydd y twf yn cael ei gyflawni?

Bydd cartrefi newydd, swyddi a chyfleusterau ategol yn cynnwys:



- Y rhai sydd eisoes wedi'u hadeiladu ers 2021;
- addasiadau i'r stoc dai bresennol, gan ystyried dymchweliadau disgwyliedig a newidiadau defnydd yn seiliedig ar gyfraddau yn y gorffennol.
- Ymrwymiadau - safleoedd sydd â budd o ganiatâd cynllunio presennol neu benderfyniad i roi caniatâd.
- darpariaeth 'Windfall' - safleoedd sy'n debygol o ddod ymlaen drwy newid naturiol mewn ardal drefol maint Caerdydd; a
- Bwrw ymlaen â rhannau o'r safleoedd strategol a ddyrannwyd yn y CDLl nad ydynt wedi cael caniatâd cynllunio i sicrhau bod yr uwchgynlluniau ar gyfer y safleoedd yn cael eu darparu'n llawn.

Yn gyffredinol, ar gyfer cyfnod cyfan y Cynllun, mae hyn yn cynrychioli tua 50% o'r holl gartrefi newydd sy'n cael eu darparu ar safleoedd tir llwyd a 50% yn cael eu darparu ar safleoedd tir glas.

Mae darparu ystod a dewis gwirioneddol o safleoedd newydd yn hanfodol er mwyn cyflawni'r lefel ofynnol o dwf yn effeithiol, darparu CDLl.

# Beth arall mae'r Cynllun Adnau yn ei ddweud?

**Rheoli Twf**

Mae polisïau a mecanweithiau wedi'u rhoi ar waith i reoli twf yn y dyfodol. Mae'r ardaloedd gwarchodedig yn cynnwys y Lletem Werdd i'r gogledd o draffordd yr M4, ffiniau aneddiadau tynn ledled y sir ac amddiffyn dyffrynnoedd afonydd a mannau agored. Mae dull uwchgynllunio yn darparu fframwaith ar gyfer safleoedd strategol, gan nodi gofynion defnydd tir. Mae canllawiau dylunio yn annog datblygu cynaliadwy o ansawdd uchel.

**Cyflwyno Seilwaith newydd**

Mae'r Cynllun yn gofyn am ddarparu seilwaith newydd yn amserol gan gynnwys cyfleusterau cymunedol, cludiant a gwasanaethau eraill..

**Darparu atebion trafnidiaeth cynaliadwy**

Mae'r dull hwn yn ceisio lleihau'r galw am deithio, hyrwyddo teithio llesol a lleihau dibyniaeth ar y car. Rhaid integreiddio datblygiadau newydd â darparu seilwaith trafnidiaeth newydd trwy sefydlu atebion trafnidiaeth cynaliadwy a dewisiadau teithio gwell i bawb. Mae hyn yn cyd-fynd â gwaith i ddatblygu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus mwy effeithiol ar draws y rhanbarth, gan helpu pobl i deithio o'r man lle maent yn byw i weithio, a helpu i rannu ffyniant o amgylch y ddinas-ranbarth.

**Ymateb i anghenion economaidd a thystiolaeth**

Rhaid cynnal y rôl economaidd allweddol a gyflawnir gan Gaerdydd - mae Caerdydd wedi cyflawni cyfran uchel o swyddi yn gyson yn y ddinas-ranbarth

ac mae'r strategaeth yn sicrhau ystod lawn a dewis o gyfleoedd economaidd ar draws yr holl sectorau perthnasol. Bydd Parth Menter Canol Caerdydd yn allweddol, wrth gynnal rolau Canol y Ddinas, Bae Caerdydd, Canolfannau Dosbarth a Chanolfannau Lleol a safleoedd cyflogaeth presennol ynghyd â darparu ystod a dewis o safleoedd i ddarparu ar gyfer y galw.

**Ymateb i anghenion cymdeithasol a thystiolaeth**

Mae gan Gaerdydd rai anghenion cymdeithasol sylweddol, a rhagwelir y bydd galw tai fforddiadwy arbennig o uchel yn parhau dros gyfnod y Cynllun. Nod y Strategaeth yw darparu ystod a dewis o safleoedd i ymateb i'r amrywiaeth lawn o anghenion, gan gynnwys y rhai o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr fel sy'n ofynnol mewn polisi cenedlaethol. Mae'r Cynllun yn hyrwyddo cymunedau mwy cynaliadwy, cefnogi Canolfannau Ardal a Lleol ac annog yr ystod lawn o gyfleusterau cymdeithasol, iechyd ac addysgol hygyrch. Mae'r cynllun yn cefnogi mentrau adfywio, gan ddefnyddio'r manteision posibl y gall datblygiadau newydd eu cynnig i ardaloedd cyfagos.

**Parchu amgylchedd Caerdydd ac ymateb i argyfyngau newid hinsawdd a natur**

Mae gan Gaerdydd dreftadaeth naturiol ac adeiledig unigryw a neilltuol arbennig. Mae'r Cynllun yn annog datblygiad ynni adnewyddadwy a charbon isel a darparu datblygiad cynaliadwy drwy ddiwallu anghenion cymdeithasol ac economaidd, ond mewn ffordd a reolir sy'n cadw, rheoli a gwella nodweddion pwysicaf ein treftadaeth naturiol ac adeiledig. Yn ganolog i hyn mae dynodi Lletem Werdd i'r gogledd o draffordd yr M4, gan ddiffinio ffiniau aneddiadau ynghyd â diogelu cymoedd ein hafonydd a'n mannau agored.

Yn y modd hwn, gellir cynnal nodweddion amgylcheddol unigryw Caerdydd yn llwyddiannus gyda chyfleoedd pellach i wella eu rheolaeth a chynyddu mwynhad y cyhoedd. Mae polisïau manwl yn darparu canllawiau clir sy'n ymwneud ag elfennau pwysig o fioamrywiaeth, tirwedd a threftadaeth adeiledig Caerdydd.

# Sut i wneud sylwadau ar y Cynllun Adnau

Gallwch wneud sylwadau ar y CDLl Adnau Newydd mewn un o ddwy ffordd:

- Ar-lein drwy gofrestru ar cdllcaerdydd.co.uk/ymgynghoriad a defnyddio'r ffurflen ymateb ar-lein, neu
- Os na allwch wneud sylwadau ar-lein, lawrlwythwch ffurflen ymateb gan cdllcaerdydd.co.uk/ymgynghoriad a'i hanfon at ldp@cardiff.gov.uk. Fel arall, gellir cael ffurflenni drwy ffonio 029 2087 3461 a'u dychwelyd drwy'r post i'r cyfeiriad isod:

  Tîm CDLl
  Cynllunio Strategol
  Cyngor Caerdydd
  Ystafell 206
  Neuadd y Sir
  Atlantic Wharf
  Caerdydd
  CF10 4UW

Mae'r cyfnod ymgynghori yn rhedeg rhwng **18 Chwefror** a **15 Ebrill 2025.**

Felly, mae'n rhaid derbyn sylwadau erbyn hanner nos ar 15 Ebrill 2025. Ni all y Cyngor warantu y bydd sylwadau a dderbynnir yn ddiweddarach yn cael eu hystyried. Bydd yr holl sylwadau a wneir erbyn y dyddiad cau yn cael eu cydnabod a'u hystyried.